

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

16 Chwefror 2017

Annwyl Alun

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg


Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael gohebiaeth gan Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG), sydd wedi amgáu ei drosolwg cenedlaethol a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r fersiwn ddrafft o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2017–20. Deallaf fod RhAG wedi ysgrifennu atoch ar wahân gyda'r ddogfen hon, yn galw arnoch i wrthod y rhan fwyaf o'r Cynlluniau drafft.

At hynny, yn ddiweddar cafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gopi o ohebiaeth atoch gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â'r Cynlluniau Strategol drafft, lle mae'n mynegi pryder nad oedd y rhan fwyaf o'r Cynlluniau yn ddigonol.

Mae'r ddau ddarn o ohebiaeth wedi'u hanfon at Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a all ystyried hyn fel rhan o'i ymchwiliad i Strategaeth Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ystyried ei gamau nesaf ar gyfer y Cynlluniau Strategol ar ôl cwblhau ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Fodd bynnag, roeddwn hefyd yn awyddus i fynegi prif bryder y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod RhAG a Chomisiynydd y Gymraeg yn credu nad oedd y rhan fwyaf o'r Cynlluniau Strategol drafft a gynhyrchwyd yn ddigonol. Byddwn yn ddiolchgar am sicrwydd y bydd y pryderon hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r Cynlluniau ar gyfer 2017–20.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

